

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL
(Cyfarfod Arbennig)**

16^{eg} Ebrill 2014

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mr D Ellis, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd O James, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd A Lee, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.30a.m. – 12.10pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorwyr S Hudson ac R Owens.

2. Eithrio'r Cyhoedd

Dywedodd y Swyddog Monitro er bod adroddiad y Pennaeth Rheoli Datblygu wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod, y cyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod oedd y dylai'r trafodaethau barhau yn gyfrinachol.

PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

3. Cynnig Budd Cymunedol ar gyfer Cynllun Gwres a Phŵer Cyfunedig LNG South Hook

Atgoffwyd yr Aelodau bod cynnig wedi'i wneud i ddatblygu gwaith newydd gwres a phŵer cyfunedig i'w leoli ar dir gerllaw ac o fewn terfynau terfynfa LNG South Hook ac o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Gan fod y prosiect yn Brosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd o dan Ddeddf Cynllunio 2008, y sawl oedd yn gwneud y penderfyniad oedd Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ynni a Newid Hinsawdd.

Roedd ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2008 yn geisiadau am Orchymyn Caniatâd Datblygu, a byddai'r cais yn cael ei archwilio gan Awdurdod Archwilio (sef un arolygwr yn yr achos hwn) fyddai hefyd yn derbyn sylwadau. Byddai'r Awdurdod Archwilio yn cyflwyno adroddiad ac yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar yr 20^{fed} o Dachwedd 2013, cytunwyd ar Adroddiad yr Awdurdod ar yr Effaith Leol ac ar y Sylwadau Ysgrifenedig, a chyflwynwyd y dogfennau hyn i'r Archwiliad ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Hefyd roedd swyddogion wedi ymddangos yn yr archwiliad i roi tystiolaeth ar faterion penodol.



Roedd yr Adroddiad ar yr Effaith Leol a'r Sylwadau Ysgrifenedig yn cynnwys argymhellion am yr angen i'r ymgeisydd gytuno ar gytundeb Adran 106 (y cyfeirir ato yng nghyd-destun y cais hwn fel rhwymedigaeth caniatâd datblygu) sy'n mynd i'r afael â'r effaith a glustnodwyd mewn perthynas â thai a thrafnidiaeth. Cafodd yr argymhellion hyn eu nodi yn yr adroddiad. Hefyd roedd Cyngor Sir Penfro wedi gwneud yr un ceisiadau yn ei Adroddiad ar yr Effaith Leol.

Roedd yr ymgeisydd wedi ymateb i'r dystiolaeth a'r dadleuon am i rwymedigaeth caniatâd datblygu fynd i'r afael â'r effeithiau a glustnodwyd ar drafnidiaeth ac ar dai, a hynny yn ysgrifenedig ac yn y Gwrandawiadau Materion Penodol. Maent yn dweud eu bod wedi dangos na fyddai'r prosiect yn cael unrhyw effaith andwyol barhaol ar y system ffyrdd lleol nac ar y farchnad tai fforddiadwy leol ac na fyddai unrhyw effaith annerbyniol dros-dro. Nid oedd yr ymgeisydd felly yn cefnogi'r pryderon honedig a amlinellwyd yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol i gyfiawnhau gwario rhyw £6.2 miliwn ar welliannau ffyrdd a buddsoddiad ar dai fforddiadwy, ac na fyddai felly yn cytuno â rhwymedigaeth caniatâd datblygu fyddai yn eu barn hwy yn methu'r profion ar gyfer gofyn am rwymedigaeth cynllunio a nodir yn y canllawiau cenedlaethol ac mewn deddfwriaeth.

Nid yw'r Awdurdod na Chyngor Sir Penfro wedi newid eu sefyllfa yn sgîl cyflwyniadau'r ymgeisydd. Felly mater ydyw yn awr i'r Awdurdod Archwilio ac yn y pen draw i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu a ddylai cymeradwyo'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu fod yn amodol ar rwymedigaeth caniatâd datblygu yn ôl yr hyn a ofynnwyd gan yr Awdurdod a gan Gyngor Sir Penfro.

Nid oedd yr ymgeisydd yn derbyn y ddadl bod ystyriaethau cynllunio perthnasol sy'n ymwneud â'r effaith ar y ffyrdd ac ar dai fforddiadwy oedd yn gofyn am rwymedigaeth caniatâd datblygu gael ei wneud cyn gallu rhoi caniatâd, ond roeddent fodd bynnag wedi cydnabod bod y materion hyn yn faterion o bwys i'r Awdurdod (ac i Gyngor Sir Penfro) ac felly roeddent yn dymuno gwneud cyfraniad i iechyd a lles economaidd yr ardal leol. Roedd cynnig 'prosiect cymunedol' felly wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod ac i Gyngor Sir Penfro i'w ystyried y tu allan i'r broses Archwilio, a rhoddwyd crynodeb o hyn yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn nodi arfarniad y swyddogion o'r prosiectau a gynigiwyd, sef cronfa "prosiect cymunedol". Casgliad yr arfarniad oedd nad oedd y prosiectau cymunedol a gyflwynwyd yn gynnig derbyniol i fynd i'r afael â'r effeithiau oedd wedi'u clustnodi yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol, nac yn gynnig ariannol cymharol y gellid ei ddefnyddio at y cyfryw ddiibenion. Hefyd barnwyd bod mecanweithiau o gyflawni'r cynigion yn aneglur, yn enwedig gan nad yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod tai na'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y cyfryw brosiectau. Felly barnwyd na ellid derbyn y cynnig yn lle rhwymedigaeth Adran 106 y gofynnwyd amdano mewn ymateb i'r effeithiau uniongyrchol a glustnodwyd fyddai'n codi o'r cyfnod adeiladu'r datblygiad hwn. Serch hynny roedd cynnig prosiect cymunedol y tu allan i'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn cael ei groesawu unwaith y byddai canlyniad yr Archwiliad yn hysbys ar y gofyniad (neu beidio) am y cyfryw rwymedigaeth.



Cyfeiriwyd yn y cyfarfod at ohebiaeth oddi wrth asiant yr ymgeisydd oedd yn nodi eu barn am bwerau'r Awdurdod Archwilio a'r Ysgrifennydd Gwladol o ran y cyflwyniad gan yr Awdurdod a Chyngor Sir Penfro bod angen cael rhwymedigaeth caniatâd datblygu.

PENDERFYNWYD:

- a) bod yr Awdurdod yn cadw at y safbwynt a fabwysiadodd o ran effaith y cynllun ar dai ac ar ffyrdd fel y'u nodwyd yn Adroddiad yr Awdurdod ar yr Effaith Leol ac yn ei Sylwadau Ysgrifenedig.
- b) y dylid dilyn trywydd y cynnig o becyn prosiect cymunedol y tu allan i broses cynllunio Gorchymyn Caniatâd Datblygu unwaith bod canlyniad sylwadau'r Awdurdod ar yr effeithiau ar dai ac ar ffyrdd yn hysbys.

